

FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR Y FFLINT
DYDD LLUN 20 EBRILL 2015

Cofnodion cyfarfod rhif pum deg chwech o Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Llun, 20 Ebrill 2015

YN BRESENNOL: Dr. J. Rosenfeld (Cadeirydd)

Mrs. A.J. Chamberlain, Mrs. V. Darby, Mr. S.M. Gladwin, Mr. B. Harrison, Mr. J.A. Holiday, Mr. D.M. Hÿtch, Mr. M.W. Moriarty a Mr. E.G. Williams

YMDDIHEURIADAU:

Mr. T. Birtles, Mr. N.J. Howell, Mr. H. White a Miss J.O. Williams

HEFYD YN BRESENNOL:

Mr. Eric Owen, Fforwm Anabledd Sir y Fflint a Mr. K. Armstrong-Braun

YN MYNYCHU: Mr. S. Bartley, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ac Ysgrifennydd y Fforwm; Mr. A. Farrow, Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); a Miss. S. Thomas, Swyddog Pwyllgor

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu Mr. S. Bartley a oedd wedi phenodi'n Ysgrifennydd y Fforwm.

1. COFNODION

Roedd cofnodion cyfarfod rhif pum deg pump o'r Fforwm a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2015 eisoes wedi'u dosbarthu i'r Aelodau.

Cywirdeb

Cofnod rhif 3 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP)

Nododd y Cadeirydd fod y gair '*had*' yn llinell gyntaf y paragraff yn y cofnodion Saesneg wedi'i hepgor a gofynnodd i hyn gael i gywiro.

Cofnod rhif 4 – Adroddiad cynnydd ar ddarparu ar gyfer beicwyr yn Sir y Fflint

Gofynnodd Mr. John Holiday i'r frawddeg gyntaf gael ei rhannu i ddangos bod hyn yn ymwneud â dau fater gwahanol.

Cofnod rhif 6 – trafodaeth am 1) Gwella cydweithrediad rhwng y Fforwm a chynghorau tref a chymuned a 2) Codi proffil cyffredinol y Fforwm

Dyweddodd yr Ysgrifennydd mai Mr. White (yn hytrach na Mr. Howell) fyddai'n cysylltu â Mr. Stuart Jones.

Cofnod rhif 7 – Cymeradwyo deuddegfed Adroddiad Blynyddol y Fforwm

Gofynnodd y Cadeirydd i'r penderfyniad nodi mai'r deuddegfed adroddiad blynyddol, nid yr unfed ganrif ar ddeg, a gafodd ei gymeradwyo.

Yn amodol ar y pum newid uchod, cymeradwyodd y Fforwm y cofnodion.

Materion yn codi

Cofnod rhif 2 – Cofnodion/Materion yn Codi

Nid oedd Mrs. Vera Darby wedi cael ymateb eto gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) i'r pryderon ynghylch torri glaswellt. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid trafod hyn o dan yr eitem olaf ar yr agenda er mwyn gwahodd swyddogion i gyfarfod arall o'r Fforwm.

Cofnod rhif 6 – Trafodaeth am 1) Gwella cydweithrediad rhwng y Fforwm a chynghorau tref a chymuned a 2) Codi proffil cyffredinol y Fforwm

O ran gwella cydweithrediad rhwng y Fforwm a chynghorau tref a chymuned, dywedodd yr Ysgrifennydd nad oedd Mr. Howard White wedi cael cyfle i gysylltu â Mr. Stuart Jones eto gan ei fod ar ei wyliau ar hyn o bryd.

Esboniodd Mr. Farrow ei fod wedi rhoi manylion y Fforwm i Joanne Pierce yn adran y Prif Weithredwr a fyddai'n cysylltu i drefnu i'r Fforwm roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Sir ar 25 Mehefin 2015.

Trafodwyd sut y gellid codi proffil cyffredinol y Fforwm yn y cyfarfod anffurfiol ar 23 Mawrth 2015. Roedd y cofnodion, a oedd wedi'u hatodi i agenda'r cyfarfod hwn, yn cynnwys nifer o gamau i'w cymryd, fel y penderfyniad i'r Fforwm ysgrifennu ai adroddiadau blynyddol ei hun a chysylltu â Swyddfa'r Wasg yn y Cyngor i ddatblygu strategaeth i ryddhau datganiadau i'r wasg o bryd i'w gilydd. Soniodd y Cadeirydd am y cofnodion blaenorol a oedd i'w gweld ar wefan y Fforwm ac awgrymodd y dylai'r aelodau gymryd eu tro i gynnig sylwadau ychwanegol ar unrhyw newyddion a ddaw i law ar ôl pob cyfarfod. Dywedodd y gallai Swyddfa'r Wasg, efallai, ddarparu canllawiau ar y ffordd orau o wneud hynny ac y gallai'r adran TGCh roi cyngor ynghylch creu dolenni rhwng gwefan y Fforwm a Fforwm Anabledd Sir y Fflint.

Cyfeiriwyd at agwedd arall yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth, sef y gobaith y gallai Mr. Neville Howell fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cyrchfan Sir y Fflint fel cynrychiolydd y Fforwm.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn gobeithio y byddai'r cysylltiad rhwng y Fforwm a'r Gwasanaethau Stryd yn parhau drwy enwebu swyddog priodol i ddod i'r cyfarfodydd a bwydo gwybodaeth am y materion a godwyd. Ychwanegodd y byddai'n ddefnyddiol i'r Fforwm gael gwybodaeth am y strwythur newydd yn y cyfarfod nesaf.

Cofnod rhif 10 – Eitemau posibl i'w cynnwys ar yr agenda yn y dyfodol

Cytunodd Mr. Farrow i gysylltu â Mr. Howard White ynghylch y mathau o geisiadau cynllunio yr oedd angen ymgynghori â'r Fforwm yn eu cylch.

Mr. White i gysylltu â Mr. Jones i drafod y sefyllfa bresennol o ran y llwybr troed wrth ochr ffordd osgoi'r Wyddgrug yn ardal Cyngor Cymuned Argoed.

Aros i Joanne Pierce gysylltu i drefnu i'r Fforwm roi cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Sir.

Bwrw ymlaen â'r gwaith y cytunwyd arno yn y cyfarfod anffurfiol i godi proffil y Fforwm a gwella'r cysylltiad rhyngddo â'r cynghorau tref a chymuned.

Yr Ysgrifennydd i drefnu i aelodau'r Fforwm gael copi o strwythur newydd y Gwasanaethau Stryd yn y cyfarfod nesaf.

Mr. Farrow i gysylltu â Mr. White ynghylch y mathau o geisiadau cynllunio yr oedd angen ymgynghori â'r Fforwm yn eu cylch.

2. CYNLLUN GWELLA HWALIAU TRAMWY (ROWIP)

Dywedodd yr Ysgrifennydd na chafwyd gwybodaeth ychwanegol ers y cyfarfod diwethaf ac esboniodd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar sut i adnewyddu'r Cynllun ROWIP

3. ADRODDIAD CYNNYDD YNGHYLCH DARPARU AR GYFER BEICWYR YN SIR Y FFLINT

Er bod Mr. David Hÿtch yn cydnabod sylwadau blaenorol Neal Cockerton ar wella rhannau o'r llwybr beicio ar hyd yr arfordir pan oedd hynny'n bosibl, nododd y dylai llwybr beicio redeg rhwng dau bwynt er mwyn iddo fod yn ymarferol. Croesawodd y gwaith a wnaed i wella'r llwybr e.e. rhwng Talacre a Ffynnongroyw ond roedd problemau ar ochr Swydd Caer rhwng Cei Connah a Chaer. Roedd yn canmol y gwaith a wnaed rhwng Ffynnongroyw a Mostyn ond roedd bylchau yn y llwybr i gyfeiriad Bagillt. Hefyd, yn yr ardal rhwng Llannerch-y-mor a Mostyn, dywedodd fod angen mynediad i'r morglawdd a theimlai fod angen bwrw ymlaen i gau'r bwlch rhwng y parc ailgylchu ym Maes Glas a Llys Bedydd. Yn ogystal â hyn, roedd problemau diogelwch difrifol rhwng Cei Connah a'r Flint, a phwysleisiodd fod angen bwrw ymlaen â'r gwaith ar y bont yn Llaneurgain.

Pan holodd y cadeirydd am gyllid i wella'r llwybr, esboniodd Mr. Farrow fod y Gwasanaethau Stryd wedi gwneud ceisiadau ac roeddent yn rheoli prosiectau. Roedd rôl y Fforwm yn bwysig o ran helpu i flaenoriaethu datblygiadau a thynnu sylw at y prif problemau. Awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol pe bai is-grŵp yn cyfarfod i nodi blaenoriaethau a'u cyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai'r is-grŵp yn cynnwys Mr. Farrow, Mr. Hÿtch, Mr. Holiday a Mrs. Darby. Cytunodd Mr. Farrow i ofyn i gynrychiolydd y Gwasanaethau Stryd ymuno â'r is-grŵp.

Tynnodd Mr. Holiday sylw at yr NCN5 fel y llwybr twristiaid pwysicaf i Ogledd Cymru a dywedodd fod nifer o sylwadau negyddol ar fforymau beicio yn ymwneud â diffyg llwybrau cyswllt.

Cyfeiriodd Mr. Farrow at y llwybr beicio rhwng Saltney a Broughton, a dywedodd fod Cam 1 bron â'i gwblhau yn dilyn rhywfaint o waith ar y goleuadau stryd. Byddai Cam 2 yn dechrau'n ddiweddarach eleni ar ôl datrys y broblem yn ymwneud â pherchnogaeth y tir.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, diolchodd Mr. Armstrong-Braun i'r Cyngor am gwblhau'r gwaith yn brydlon ond holodd pam mai llwybr unffordd oedd rhwng Saltney a Broughton gan ei fod yn ddigon llydan i feicio i'r ddau gyfeiriad. Dywedodd Mr. Farrow fod y llwybr i'w weld yn boblogaidd a bod beicwyr yn teithio arno i'r ddau gyfeiriad. Er bod yr arwyddion yn wynebu un cyfeiriad yn unig, dywedodd nad oedd rheoliadau'n nodi mai llwybr unffordd ydoedd.

Mr. Farrow i gysylltu â Mr. Hÿtch, Mr. Holiday a Mrs. Darby ynghylch yr is-grŵp beicio ac i drefnu i'r Gwasanaethau Stryd anfon cynrychiolydd.

4. IS-GRŴP CEFFYLAU ROWIP

Dywedodd Mrs. Darby nad oedd yr is-grŵp wedi cyfarfod ers y cyfarfod diwethaf. Ychwanegodd Mr. Farrow y cytunwyd i gynnal cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

5. EITEMAU POSIBL I'W CYNWYS AR YR AGENDA

- (a) Roedd pryder ynghylch diogelwch y rhai a oedd yn defnyddio ymyl y ffordd gan nad oedd y glaswellt yn cael ei dorri mor aml. Gwahoddwyd cynrychiolydd o'r Gwasanaethau Stryd a Swyddogion Ecoleg a Bioamrywiaeth y Cyngor i gyfarfod â'r Fforwm.

Yn dilyn cais gan y Cadeirydd, cytunodd yr Ysgrifennydd i gysylltu â'r Gwasanaethau Stryd i ofyn i un o'u swyddogion ddod i gyfarfod nesaf y Fforwm i drafod y pryderon hyn. Roedd y drafodaeth flaenorol ar y mater wedi cynnwys awgrym i Ecolegydd y Cyngor (Amanda Davies) a Swyddogion Bioamrywiaeth fod yn bresennol hefyd.

- (b) Darparu llwybrau troed a phalmentydd ar ymyl y ffordd mewn ardaloedd gwledig, a ddefnyddir gan ddefnyddwyr ffordd heb fodur, ac yn ymuno â llwybr troed e.e. Ffordd Bryn rhwng Bwcle a Bryn-y-Baal

Gofynnodd y Cadeirydd i'r ysgrifennydd gynnwys y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.

- (c) Arddangos y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad

Roedd yr Ysgrifennydd yn credu y gellid trefnu i arddangos y system yn y cyfarfod nesaf, gan ddibynnu ar y cynnydd a wnaed o ran addasu'r system.

(d) Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

I'w drafod mewn cyfarfod arall, pan ddaw rhagor o wybodaeth i law.

(e) Codi proffil y Fforwm a gwella'r cysylltiad rhwng y Fforwm a chynghorau tref a chymuned

Y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ers y cyfarfod anffurfiol a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2015.

(f) Twristiaeth / Cyrchfan Sir y Fflint

Dyweddodd Mr. Farrow mai rhan o bortffolio Cymuned a Menter oedd twristiaeth. Dywedodd y Cadeirydd y gallai'r Fforwm helpu i bennu blaenoriaethau ar gyfer strategaethau twristiaeth, safleoedd hanesyddol etc a gofynnodd a ellid cynnwys hyn ar agenda'r cyfarfod nesaf. Cytunodd Mr. Farrow i gysylltu â'r Ysgrifennydd.

(g) Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ym maes Gwasanaethau Cefn Gwlad.

Wrth ymateb i gais am wybodaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd y byddai Mr. Tom Woodall yn dod i gyfarfodydd y Fforwm pan oedd gwybodaeth newydd ar gael a'i fod yn cysylltu â Mr. Woodall pan oedd yn paratoïr agenda.

(h) Unrhyw fater arall

Yn dilyn trafodaeth, gofynnodd y Cadeirydd i hyn gael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cytunodd y Fforwm i nodi'r eitemau hyn i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

6. AMSER A DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

Cytunwyd ar y dyddiadau dros dro a ganlyn ar gyfer cyfarfodydd 2015/16, gan nad yw Dyddiadur Cyfarfodydd y Cyngor wedi'i gymeradwyo eto.

13 Gorffennaf 2015 am 2pm

12 Hydref 2015 am 2pm

11 Ionawr 2016 am 2pm

7. HYD Y CYFARFOD

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 2.50pm.

DRAFT